



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James**

**Ffordd Y Rhondda  
Pontypridd  
Rhondda Cynon Taf  
CF37 1HQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	299
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	213
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	58
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%)	12.8%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%)	6.1%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	24.9%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2023
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	09/05/2016
Dyddiad dechrau'r arolygiad	10/06/2024

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

[Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](https://gov.wales)

- a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol

## Trosolwg

Mae pennaeth dros dro Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James yn arwain y gymuned ddysgu yn ysbrydoledig. Mae'n arddel gweledigaeth sy'n darparu amgylchedd sy'n meithrin lles a dysgu disgyblion yn fedrus. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o gydweithio ymysg staff yn werthfawr ac yn eu cefnogi i ddarparu profiadau dysgu buddiol i ddisgyblion. Mae'r gymuned ehangach o fewn yr ysgol, gan gynnwys y corff llywodraethol, yn rhannu'r un weledigaeth ac yn cyfrannu'n briodol at welliant parhaus. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn gwerthuso cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella yn gyson, sydd yn ei dro yn arwain at flaenoriaethau a gwelliant buddiol. Er hyn, nid yw'r prosesau hunanwerthuso yn mesur effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion yn ddigon effeithiol bob tro.

Un o rinweddau amlycaf yr ysgol yw'r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae hyn yn cael effaith gadarn ar hyder disgyblion i siarad Cymraeg mewn cyd-destunau ffurfiol a llai ffurfiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn effeithiol mewn gweithgareddau dysgu perthnasol. At ei gilydd, mae athrawon ar draws yr ysgol yn manteisio ar gyfleoedd i rannu ac efelychu arferion addysgu effeithiol. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn cael profiadau buddiol sy'n eu cefnogi i ddatblygu a chymhwyso eu medrau yn annibynnol mewn gweithgareddau dysgu ysgogol. Er hyn, nid yw'r arferion addysgu effeithiol yn cael eu harddel yn gyson ymhob dosbarth.

Mae'r tîm addysgu yn adnabod anghenion lles a dysgu'r disgyblion yn fedrus. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at feithrin diddordeb disgyblion yn eu dysgu mewn amgylchedd cynhwysol a Chymreig. Mae staff yn darparu cyfleoedd i gefnogi disgyblion i fwynhau'r profiadau dysgu amrywiol a gwneud cynnydd yn eu medrau. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol gyda'u dysgu, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cynhaliaeth arbenigol yn y 'Cwtsh' trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Argymhellion

- A1 Mireinio prosesau hunanwerthuso
- A2 Rhannu arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yr ysgol gyda medrau cyfathrebu Cymraeg islaw'r disgwyl ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn gwneud cynnydd cadarn o'u manau cychwyn, yn magu cariad at yr iaith ac yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd ag incwm isel, yn gwneud cynnydd cryf ar draws y medrau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau gweithgareddau ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn llwyddiannus. Maent yn parchu cyfraniadau disgyblion eraill wrth weithio gyda'i gilydd. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu drwy rannu syniadau a chamsyniadau yn agored, er enghraifft wrth drafod cywirdeb brawddegau i'w cynnwys mewn bas data canghennog am anifeiliaid mewn perygl. Mae medrau llafar bron bob disgybl yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n hyderus ac yn defnyddio geirfa a phatrymau brawddeg cywir mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae bron bob disgybl yn ehangu ar yr eirfa sydd ganddynt ac yn cyfathrebu'n gynyddol huawdl. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn y 'Sesiwn Sglein' dyddiol wrth ymarfer eu defnydd o wybodaeth am iaith yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a Saesneg, ac yn cyfrannu'n ystyrllon mewn trafodaethau dosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn gadarn yn y ddwy iaith. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn adeiladu geiriau a brawddegau yn bwyllog ac mae ganddynt ddealltwriaeth gyson o atalnodi. Maent yn frwdfrydig wrth drafod cynnwys stori ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o brif nodweddion llyfr. Yn dilyn mewnbwn penodol i ddatblygu medrau darllen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn gwneud cynnydd cadarn iawn. Er enghraifft, maent yn ymchwilio i amrywiaeth o destunau am dreftadaeth yr ardal leol er mwyn cynllunio a chyfrannu at glip digidol i groesawu a hyrwyddo'r Eisteddfod Genedlaethol yn y gymuned.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus gan ffurfio llythrennau a geiriau syml mewn ystod o ddeunyddiau fel pridd a thywod. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o ffurf gywir brawddegau ac maent yn datblygu eu medrau sillafu yn dda, er enghraifft wrth ysgrifennu ffeil ffeithiau am drychfilod. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod dda o fedrau ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn cymhwyso'r medrau'n llwyddiannus mewn amrywiaeth o gyd-destunau ysgogol. Er enghraifft, maent yn defnyddio idiomaau a chymariaethau yn effeithiol wrth ysgrifennu stori ar y thema 'Y Ffair Ganol Nos'.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu'n effeithiol. Maent yn datblygu ystod gynyddol o fedrau rhif yn gyson mewn gweithgareddau dysgu penodol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cyfri'n hyderus hyd at 10. Maent yn dod i adnabod siapiau 3D syml ac yn datblygu dealltwriaeth o fesur yn dda. Erbyn Blwyddyn 2, mae disgyblion yn trin arian hyd at £2 pan fyddant yn prynu ffrwythau a

Ilysiâu yn siop Y Lindysyn Llwglyd lawn. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn datblygu amrediad o fedrau mathemategol yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn deall y berthynas sydd rhwng canrannau, ffracsiynau a rhifau degol cyfwerth, er enghraifft. Mae disgyblion yn cymhwyso a datblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad yn rheolaidd. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn cynhyrchu graffiau llinell manwl wrth gofnodi ymchwiliad gwyddonol i brofi pa ddeunydd yw'r gorau i gadw dŵr yn boeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau digidol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio dulliau ymarferol i ehangu eu dealltwriaeth gynnar o raglennu cyfarwyddiadau yn hyderus cyn symud ymlaen i gymhwyso eu medrau yn ddigidol. Er enghraifft, maent yn symud yn gorfforol cyn codio teclynnau i symud o gwmpas llwybr rhwystrau 'drysfar' dail' yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn cefnogi ei gilydd yn dda i gael mynediad, cadw a threfnu eu gwaith digidol yn annibynnol. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o feddalwedd yn llwyddiannus, sy'n cynnwys defnyddio fformiwla bwrpasol mewn taenlenni. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n fedrus wrth greu fformiwlaâu i gyfrifo costau llogi ardaloedd ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol.

Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae medrau creadigol y rhan fwyaf yn gwella'n llwyddiannus. Maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o arddull a thechneg arlunwyr amrywiol ac yn arbroti gyda'u syniadau eu hunain yn fedrus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio tŵn yn effeithiol wrth gyfleu cysgodion ar gofgolofnau a lleoliadau nodedig yr ardal leol.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gryf. Maent yn ymroi'n frwdfrydig i weithgareddau ffitrwydd ac yn gwerthuso eu perfformiad eu hunain ac eraill yn bwrpasol, er enghraifft wrth iddynt gydweithio i gynllunio a pherfformio symudiad trê'n sgrech ar ffurf dawns greadigol.

### **Lles ac agweddau at ddysgu**

Un o nodweddion cryfaf yr ysgol yw'r natur gynhwysol, yr ethos gofalgar a'r awyrgylch gartrefol sydd ynddi. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn mwynhau bod yn aelod o gymuned yr ysgol ac yn falch bod y staff yn eu gwerthfawrogi. Ar draws yr ysgol, mae gan ddisgyblion berthynas waith gadarnhaol â staff. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn ac maent yn gwrtais a pharchus at ei gilydd ac eraill. Nodwedd arbennig yw parodrwydd y rhan fwyaf o ddisgyblion i ddangos gofal ac ystyriaeth at ei gilydd gan ddangos gwerthfawrogiad ar gyfer cyfraniadau eu cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn gyson ac yn ymroi'n dda i'w dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarn at ddysgu o'u cyfnod cyntaf yn yr ysgol ac yn dangos diddordeb buddiol yn eu gweithgareddau. Maent yn canolbwyntio'n ddiwyd ar eu dysgu am gyfnodau estynedig ac yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch cyson. Mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau i ddatrys heriau, ac mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio partneriaid trafod yn effeithiol i'w cynorthwyo pan fyddant yn wynebu anawsterau. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus sy'n barod i ddysgu.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cadw'n iach a heini. Maent yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymarfer corff ac yn mwynhau defnyddio'r offer yn yr ardaloedd tu allan, a hynny'n egniol yn ystod cyfnodau egwyl. Mae gweithgareddau amrywiol yr ysgol yn sicrhau bod gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth dda o sut i fod yn unigolion iach a hyderus, ac maent yn gwneud dewisiadau doeth mewn perthynas â'u deiet. Ar draws yr ysgol, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu trwy gynnig syniadau i'w cynnwys yn y themâu tymhorol. Maent yn mynegi awgrymiadau dilys am beth i ddysgu er mwyn datblygu eu dealltwriaeth ymhellach yn synhwyrol. Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ymweld â mannau sy'n hybu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru, fel yr amrywiol ymweliadau i fannau o ddiddordeb addysgol ym Mhontypridd.

Mae'r disgyblion sy'n ymgymryd â'r rolau arwain yn frwdfrydig gan gymryd eu cyfrifoldebau o ddifri ac ymfalchïo yn eu llwyddiant. Er enghraifft, mae syniadau'r Criw Cymraeg yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael proffil uchel yn yr ysgol wrth iddynt drefnu dathliadau cenedlaethol amrywiol.

Trwy eu cyd-ddealltwriaeth o foesau a gwerthoedd, mae bron bob un disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi petai rhywbeth yn eu poeni. Maent yn gwerthfawrogi bod oedolion yn eu trin yn deg ac yn eu parchu. Mae'r disgyblion yn teimlo bod staff yn gwrando'n dda ar eu syniadau ac yn ei hystyried mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae bron bob disgybl yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol ac egwyddorol. Maent yn datblygu'r gallu a'r hyder i drafod eu teimladau ac i ddangos empathi tuag at eraill mewn cyfyngder. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn trafod hanes dewrder Rosa Parks yn effeithiol. O ganlyniad, mae eu hymwybyddiaeth o degwch, cydraddoldeb a hawliau plant yn aeddfedu'n dda.

### **Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae staff yn cyflwyno gweledigaeth yr ysgol yn effeithiol. Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau disgyblion mewn profiadau dysgu ysgogol sy'n datblygu eu gwerthfawrogiad o ddiwylliant a threftadaeth yr ardal leol a thu hwnt. Mae athrawon yn cynllunio profiadau cyfoethog sy'n ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion ac yn eu cefnogi i gyflawni'n dda.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion awgrymu syniadau sy'n llywio cyfeiriad eu dysgu yn bwrpasol. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn awyddus i ddysgu am waith y ffermwyr. O ganlyniad, mae athrawon wedi addasu eu cynlluniau ar y thema 'Arwyr Arbennig' i gynnwys gweithgareddau dysgu ysgogol er mwyn diwallu eu diddordebau a'u hanghenion dysgu. Mae athrawon yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn fedrus wrth wahodd ymwelwyr i'r ysgol a threfnu ymweliadau addysgol lleol. Er enghraifft, mae bardd lleol wedi cydweithio â disgyblion i gyfansoddi rap am nodweddion pwysig Ysgol Evan James.

Mae staff yn defnyddio eu dealltwriaeth o gynnydd a chyflawniad disgyblion yn effeithiol i ddiwallu eu hanghenion dysgu. Maent yn cyflwyno gweithgareddau buddiol

ac ymarferol i gefnogi datblygiad medrau dysgu, personol a chymdeithasol disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu gweithgareddau a phrofiadau dysgu sy'n sicrhau dilyniant effeithiol wrth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dros gyfnod.

Fel tîm addysgu effeithiol, mae'r athrawon a'r cynorthwyr yn cydweithio'n hynod lwyddiannus wrth ddarparu profiadau gwerthfawr sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Maent yn cysylltu'r profiadau dysgu yn gelfydd gyda dysgu blaenorol disgyblion ac yn meithrin eu diddordeb trwy sicrhau rhediad llyfn sy'n addas i'w camau datblygu. Yn yr arferion gorau ar draws yr ysgol, mae llawer o athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau mewn gweithgareddau dysgu gwerthfawr. Trwy hyn, mae disgyblion yn ymgolli'n briodol yn eu dysgu ac yn gwneud cynnydd cyson. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon bob tro'n darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwysu eu medrau yn ddigon bwriadus mewn gweithgareddau cyfoethog. Mae hyn yn cyfyngu ar allu disgyblion i ymgolli'n llwyr yn eu gweithgareddau a gwneud penderfyniadau annibynnol am beth maent yn ei ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith.

Trwy gydweithio bwriadus, mae athrawon a'r cynorthwyr yn hyrwyddo medrau dysgu'r disgyblion ieuengaf yn llwyddiannus mewn ardaloedd dysgu atyniadol a phwrpasol y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae hyn yn hyrwyddo egwyddorion y dysgu sylfaen yn hynod lwyddiannus, er enghraifft wrth i ddisgyblion ymarfer eu medrau mân modur wrth odro'r fuwch yn y fferm ddychmygol. Trwy hyn, mae'r ardaloedd dysgu yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwysu eu medrau yn gynyddol annibynnol. Ar draws yr ysgol, mae staff yn defnyddio'r ardaloedd allanol yn fuddiol i gefnogi dysgu'r disgyblion, er enghraifft wrth blannu a chynaeafu llysiâu o'r ardd fel rhan o'u gweithgareddau coginio.

Mae'r holl staff yn sefydlu perthynas waith ofalgar â disgyblion ac yn defnyddio ystod effeithiol o ddulliau addysgu i'w cefnogi i wneud cynnydd yn eu medrau. Mae'r Gymraeg yn ganolog i fywyd a gwaith yr ysgol, gyda staff yn manteisio ar bob cyfle i arddel a chefnogi medrau llafar disgyblion fel rhan greiddiol o'u profiad dysgu. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel bod disgyblion yn cyfathrebu yn y Gymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd ffurfiol a llai ffurfiol. Er mwyn cyflawni hyn, mae athrawon yn cyflwyno ac adolygu geirfa a phatrymau brawddeg yn hynod fedrus mewn sesiynau buddiol yn ddyddiol. Trwy hyn, mae disgyblion yn datblygu hyder i siarad Cymraeg ac yn adeiladu ar eu medrau yn gadarn.

Mae athrawon yn cynnig adborth perthnasol gan sicrhau bod disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i symud eu dysgu ymlaen. Er enghraifft, darperir cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion hynaf fyfyrar ar eu dysgu a mireinio'u gwaith i ddatblygu eu medrau ymhellach. Yn ogystal, mae athrawon yn cefnogi disgyblion i ddefnyddio dulliau cyson i amlygu agweddau da a meysydd i'w gwella yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn effeithiol wrth wella eu gwaith.

Mae athrawon yn olrhain cynnydd a datblygiad disgyblion unigol a grwpiau yn fanwl. Maent yn gwerthuso ac asesu gwaith disgyblion yn gyson ac yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol.

## **Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae'r berthynas waith agos rhwng y staff a'r disgyblion, ac ymhlith y disgyblion eu hunain, yn arwain at gymuned sydd ag ethos teuluol, cyfeillgar a chynnes. Mae athrawon a chynorthwyr yn adnabod y disgyblion yn arbennig o dda ac maent yn ymateb yn effeithiol i'w hanghenion dysgu, emosiynol a chymdeithasol. Mae hyn yn atgyfnerthu eu dysgu a'u lles ac yn annog disgyblion i feithrin agweddau gwydn tuag at eu profiad yn yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn gadarn. Mae'r cydlynedd ADY yn hynod gydwbodol dros ei chyfrifoldebau a datblygiad dysgu'r disgyblion. Mae staff yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion ar eu taith drwy'r ysgol ac yn dadansoddi cynnydd yn eu deilliannau yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gyflym ac yn darparu ystod dda o raglenni cefnogi sy'n targedu eu hanghenion penodol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae staff yn darparu cefnogaeth hynod werthfawr i ddisgyblion yn y 'Cwtsh', sef adnodd pwrpasol sy'n ymateb i, ac yn diwallu, eu hanghenion, yn fwiadus. Mae'r ddarpariaeth hon yn cael effaith hynod gadarnhaol ar brofiadau dysgu'r disgyblion.

Mae gan staff gysylltiadau agos a chynhyrchiol gydag ystod o asiantaethau allanol ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys arbenigwyr, fel y seicolegydd addysg, fel rhan o'r broses o sicrhau darpariaeth i dargedu cymorth a chefnogaeth addas i ddisgyblion. Mae'r cyswllt a'r cyfathrebu clôs â rhieni yn cyfrannu'n effeithiol iawn at y ddarpariaeth hon. Mae hyn yn ei dro yn cyfrannu'n fuddiol i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau.

Mae angerdd yr holl staff at ddatblygiad y disgybl cyfan yn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn gynhwysol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer diwallu anghenion lles yn gryfder, er enghraifft wrth i staff ddarparu trefniant boreol lle mae disgyblion yn rhannu eu teimladau. Trwy hyn, mae athrawon yn gweithio'n ddiwyd wrth ymateb i'w hanghenion ac yn adnabod unrhyw ddisgybl sy'n teimlo'n bryderus neu'n anesmwyth. Mae hyn yn gymorth i ddatblygu gwytnwch a dyfalbarhad y disgyblion. Mae'r ysgol yn greadigol yn y modd y mae'n darparu sesiynau yn y 'Llety Lles' ar gyfer y disgyblion sydd angen cymorth yn ymwneud â'u lles emosiynol.

Un o gryfderau'r ysgol yw sut mae staff yn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant. Mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i ddathlu eu Cymreictod ac i deimlo eu bod yn perthyn i'r gymuned leol. Achubir ar gyfleoedd cyson i rannu a dathlu'r elfennau hyn drwy ystod o weithgareddau buddiol. Mae'r ysgol yn gosod pwyslais cryf ar ddarparu ystod o deithiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymweld â Chanolfan Calon Taf lle mae hanesydd lleol yn cyflwyno gwybodaeth werthfawr am hanes cyfoethog y dref. Mae hyn yn ennyn a chynnal eu diddordeb at eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau fel unigolion ac fel grwpiau er mwyn meithrin eu hunanhyder a'u gallu mynegiannol. Er enghraifft, mae staff yn darparu cyfleoedd da,



ar y cyd â swyddogion Amgueddfa Pontypridd, i ddisgyblion lwyfannu cyflwyniad yn olrhain hanes y ceffylau oedd yn gweithio dan ddaear yn y pyllau glo.

Mae cyflwyniadau yn y sesiynau addoli yn helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â pharch, empathi a dewrder. Er enghraifft, mae'r cyngor iechyd a lles yn dewis cefnogi elusennau lleol sy'n berthnasol i gefnogi anghenion disgyblion yr ysgol. Yn ogystal, mae staff yn cynnig i ddisgyblion a'u teuluoedd gyfrannu at y banc bwyd lleol, a threfnir stondin gwisg ysgol ail-law yng nghyntedd yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol i baratoi'r disgyblion ar gyfer byd gwaith yn effeithiol. Yn ddiweddar, daeth cynrychiolwyr o fusnes rhyngwladol i helpu disgyblion i adeiladu pont grog ar yr iard i ysbrydoli peirianwyr y dyfodol. Mae'r cyfleoedd buddiol hyn yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth disgyblion o yrfaedd posibl mewn byd gwaith ar gyfer y dyfodol.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer sicrhau prydlondeb a phresenoldeb cyson y disgyblion yn gadarn. Mae'r staff yn cadw cofnodion priodol o achosion o absenoldeb ac yn cysylltu â rhieni yn amserol i drafod unrhyw bryderon ynglŷn â phresenoldeb eu plant. Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau allanol i gefnogi hyn. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer diogelwch disgyblion ac wedi sefydlu diwylliant cryf o ddiogelu ar draws yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol i ddiogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth dros dro yn arwain yr ysgol yn ysbrydoledig ac yn cymhell disgyblion i ddatblygu eu medrau mewn amgylchedd dysgu hapus a gofalgar. Mae gweledigaeth arweinwyr 'O Bydded i'r Hen Iaith Barhau', er mwyn sefydlu cymuned Gymreig gyda safonau Cymraeg o safon uchel, yn rhinwedd nodedig o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr yn cefnogi staff i feithrin lles a hyrwyddo dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus, sydd yn ei dro yn rhoi'r hyder i ddisgyblion ymgolli yn eu dysgu a gwneud cynnydd.

Mae disgwyliadau uchel arweinwyr a diwylliant effeithiol o gydweithio rhwng holl aelodau'r staff yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae aelodau'r uwch dîm arwain dros dro yn cyfranogi'n werthfawr i gefnogi arweinwyr a staff wrth ddatblygu'r ysgol. Mae'r holl staff yn awyddus i ddatblygu eu harfer wrth gyflawni eu dyletswyddau'n gynyddol fedrus, er enghraifft wrth ddatblygu dulliau o werthuso ac asesu cynnydd disgyblion. Caiff athrawon gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau arwain wrth gydweithio â'u cyfoedion a rhannu cyfrifoldebau am wahanol agweddau o flaenoriaethau gwella'r ysgol. Yn ogystal, mae arweinwyr yn cefnogi staff i gymryd rhan mewn ystod ddefnyddiol o ddysgu proffesiynol ac yn sicrhau trefniadau cyson iddynt gydweithio â staff o ysgolion lleol. Er enghraifft, maent yn rhannu ac efelychu egwyddorion addysgu a dysgu effeithiol yn fwriadus. Mae hyn yn cefnogi'r holl staff i ddatblygu eu medrau addysgu yn effeithiol, ac yn cyd-blethu'n dda â'r trefniadau rheoli perfformiad.

Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion, yr ysgol a'i chymuned yn dda. Maent yn cynnal amrywiaeth berthnasol o weithgareddau sy'n eu cefnogi i ddatblygu'r ysgol mewn diwylliant o ymddiriedaeth gytûn. Mae'r prosesau hunanwerthuso yn adnabod cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella yn briodol,

gyda'r blaenoriaethau'n cael eu cyflwyno mewn cynllun datblygu ysgol. At ei gilydd, mae gan yr ysgol hanes llwyddiannus o wella ansawdd y ddarpariaeth, er enghraifft wrth gefnogi athrawon i godi hyder disgyblion mewn medrau darllen Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw arweinwr yn defnyddio deilliannau'r prosesau monitro yn ddigon rhagweithiol bob tro wrth werthuso effaith y ddarpariaeth ar gynnydd medrau disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi arweinwyr a staff yn werthfawr ac yn cydweithio'n gyson i ddarparu addysg Gymraeg o ansawdd uchel. Maent yn gweithredu eu dyletswyddau'n gwbl ymroddedig ac yn defnyddio eu medrau a'u harbenigeddau proffesiynol yn llwyddiannus wrth gefnogi arweinwyr ar eu taith i ddatblygu'r ysgol ymhellach. Mae'r llywodraethwyr yn cael gwybodaeth a chyflwyniadau gwerthfawr gan staff a disgyblion am weithgarwch yr ysgol, sydd yn eu harfogi i gefnogi a herio arweinwyr, fel y bo'n briodol. Caiff y wybodaeth ei hystyried mewn 'cyfarfodydd effaith' sy'n cyfrannu'n fuddiol at y broses hunanwerthuso.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer rheoli adnoddau, sy'n cynnwys rhai ariannol. Mae arweinwyr yn gwario'r gyllideb yn ddarbodus gyda'r corff llywodraethol yn ei monitro, gan gynnwys y defnydd o'r grant datblygu disgyblion, yn effeithiol. Trwy flaenoriaethu cyllid yr ysgol, mae aelodau'r corff wedi cefnogi'r staff i weithredu darpariaeth arbenigol yn hynod effeithiol er mwyn sicrhau bod anghenion grŵp o ddisgyblion ag ADY yn cael eu diwallu'n effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae aelodau'r corff yn hybu diwylliant diogelu ac yn hyrwyddo darpariaeth iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus.

Mae perthynas yr ysgol â rhieni yn gryfder ac mae'r cydweithio a'r cyfathrebu cyson gyda nhw yn hybu'r ysgol yn ei chymuned yn effeithiol. Mae arweinwyr a staff yn rhannu gwybodaeth fuddiol â rhieni am wahanol agweddau o addysgu eu plant mewn gweithdai buddiol. Er enghraifft, maent yn eu cefnogi i ymarfer dulliau datrys heriau rhifedd gyda'u plant. Mae 'Ffrindiau' yr ysgol yn cydweithio'n ddiwyd i ddarparu gweithgareddau sy'n cyfoethogi profiadau dysgu eu plant ac yn cyfrannu at gost adnoddau penodol, er enghraifft wrth ddatblygu'r amgylchedd dysgu allanol. Yn ogystal, mae staff, rhieni a phartneriaid y gymuned yn cydweithio'n llwyddiannus i wella amgylchedd ehangach yr ysgol, er enghraifft wrth gefnogi disgyblion i harddu iard yr ysgol wrth groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i Bontypridd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru): [Estyn](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/08/2024